Cofnodion cyfarfod hybrid y **CYNGOR** a gynhaliwyd nos Fercher, 21 Ionawr 2026, am 6pm.

## PRESENNOL

Y Cynghorydd A. Walker (Maer)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs S. L. Connolly, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, J. Kenney, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, Ms V. Roberts, D. Simmons a Miss C. L. Williams

Mrs H. J. Mead – Clerc y Dref
Mrs T. A. Jones – Dirprwy Glerc y Dref

## 127. DECHRAU'R CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Butterfield YH MBE, W. Price, Ms R. S. Roberts ac A. J. Rutherford.

Croesawodd y Maer bawb i'r cyfarfod.

## 128. DATGAN BUDDIANNAU

Gofynnodd y Maer a oedd gan aelodau unrhyw fuddiannau personol a/neu fuddiannau sy'n rhagfarnu i'w datgan yng nghyswllt unrhyw fusnes i'w ystyried ar yr agenda.

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

## 129. SWYDD WAG CYNGHORYDD CYMUNED

Cynghorodd Clerc y Dref nad oedd 10 o etholwyr o ward Cefndy wedi gwneud cais am etholiad, fel sy'n ofynnol, felly byddai'r swydd wag yn cael ei llenwi drwy gyfethol.

Byddai hysbysiad yn gwahodd ceisiadau gan unigolion â diddordeb mewn bod yn gynghorydd yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor Tref yfory.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau fyddai 6 Mawrth 2026, a byddai'r aelodau'n ystyried y ceisiadau a gyflwynwyd wedi hynny.

## 130. COFNODION

Cyfarfod y Cyngor - 17 Rhagfyr 2025 - Cofnodion rhifau 112-126

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. Walker ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James, a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 17 Rhagfyr 2025 - Cofnodion rhifau 24-28

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd D. Simmons, a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

## 131. ADRODDIAD Y MAER

Cyflwynodd y Maer fanylion y digwyddiad y bu ef a'r Dirprwy Faer ynddynt yn ystod y mis diwethaf (dosbarthwyd gyda'r agenda).

Cyfeiriodd y Cynghorydd Walker yn benodol at ddigwyddiad Sefydliad Brenhinol Cenedlaethol y Badau Achub, sef trochi yn y môr ar Ŵyl San Steffan, gyda nifer y bobl a gymrodd ran wedi gwneud argraff arno.

## 132. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – MIS RHAGFYR 2025 (ATODLEN A)

Cyfeiriodd y Maer at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn rhoi manylion y taliadau a wnaed a'r incwm a dderbyniwyd.

| Rhif taleb | Enw'r cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad y gwasanaethau a ddarparwyd |
|---|---|---|---|
| 2130 | BT | 87.06 | BT Neuadd y Dref – rhentu system ffonau |
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| 2131 | BT | 378.00 | Gwasanaethau band eang Neuadd y Dref |
| 0 | BT | 414.65 | Canolfan Gymuned Ffordd Wellington – system ffonau a band eang |
| 2132 | O2 | 52.20 | Rhentu ffôn symudol |
| Amherthnasol | Tesco | 9.00 | Rhentu ffôn symudol |
| 1999 | Cyngor Sir Ddinbych | 838.00 | Ardrethi annomestig Swyddfeydd Dinesig Canolfan Cymuned Ffordd Wellington – taliad 9 o 10 |
| 2136 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 9,082.07 | Cyflog net i bedwar aelod o staff – mis Rhagfyr 2025 |
| 2134 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 3,198.68 | Talu wrth Ennill – mis Tachwedd 2025 |
| 2135 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 3,280.52 | Cyfraniadau pensiwn – mis Tachwedd 2025 |
| 2034 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 1,255.83 | Swyddog Apeliadau Budd-daliadau – taliad 9 o 12 yn 2025/26 |
| 2033 | Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych | 2,000.00 | Swyddog Effeithlonrwydd Ynni – taliad 3 o 4 yn 2025/26 |
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| 2149 | BT | 87.06 | BT Neuadd y Dref – rhentu system ffonau |
| | **Cyfanswm y taliadau** | **20,689.07** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm £ |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar y cyfrif hysbysiad 31 diwrnod | 199.11 |
| HSBC | Llog chwarterol ar y cyfrif Money Maker | 469.82 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 1 mis | 852.16 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Praesept 2025/26 - taliad 3 o 3 | 193.333.33 |
| | **Cyfanswm yr incwm** | **194,854.42** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 133. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at Atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr o daliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (dosbarthwyd gyda'r agenda).

| Rhif taleb | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 2155 | Delwedd Ltd | Adnewyddu meddalwedd Office 365 | £552.96 |
| 2156 | Ambiwlans Sant Ioan Cymru | Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith – dau wedi mynd ar y cwrs ar 06/02/26 | £364.80 |
| 2157 | CIPFA | Ffi aelodaeth 2026 ar gyfer Mr A Williams (Rhif 14706) | £405.00 |
| 2158 | Proarb Ltd | Coeden sbriws 30 troedfedd – cyflenwi, gosod a gwaredu'r goeden | £2,496.00 |
| 2159 | Thomas Fattorini Ltd | Cadwyn y Maer a chynhwysydd cludo newydd | £10,690.93 |
| 2160 | Sandra Williams | Gwasanaeth cyfieithu | £269.54 |
| 2161 | Butteez Ltd | Cinio yn ystod y gweithdy ar flaenoriaethau'r Cyngor Tref | £105.60 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£14,884.83** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen i'w thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

## 134. PERFFORMIAD BUDDSODDIADAU 2025/26: MIS EBRILL – MIS RHAGFYR 2025

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad ar y cyd ganddi hi a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda), a hysbysodd y derbyniwyd llog gwerth £11,477 yn y cyfnod dan sylw.

**135. SESIWN HOLI AC ATEB**

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

**136. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn, yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

**137. DIWEDDARIAD AR GRONFA BENSIWN CLWYD**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad cyfrinachol ar y cyd ganddi hi a'r Swydd Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda), yn cynghori y gwnaed iawn am y diffyg a bod y gronfa mewn sefyllfa o warged.

Amlinellodd y Clerc y dewisiadau i'r Cyngor Tref i leihau ei gyfradd cyfraniadau cyflogwr wrth lunio'r lefel a argymhellir o gronfeydd wrth gefn i amsugno unrhyw amrywiaethau yn y dyfodol yn ystod y tair blynedd nesaf.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo cyfraniadau pensiwn y cyflogwr ar 16.5% am y tair blynedd nesaf, yn dechrau o fis Ebrill 2026. Mae hyn yn cynnwys caniatáu ar gyfer cronfa gynaliadwyedd wrth gefn o 5%.*

**138. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL**

Hysbysodd Clerc y Dref y derbyniwyd cais gan Urdd Gobaith Cymru (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn gofyn i'r Cyngor Tref ystyried gwneud cyfraniad i apêl Cronfa i Bawb eleni.

***PENDERFYNWYD****:*

*(i) Cymeradwyo cyfraniad o £1,150, i dalu am gostau pum plentyn o'r Rhyl i fynd i wersylloedd haf yr Urdd, a fyddai'n dod o'r gyllideb Gwasanaethau a Gomisiynir.*

*(ii) Y byddai Clerc y Dref yn holi sut mae'r cynllun yn cael ei hyrwyddo a'i weinyddu yn ysgolion y Rhyl.*

**139. ADLEOLI SWYDDFEYDD Y CYNGOR TREF**

Ar ran yr Is-bwyllgor Asesu Risgiau a'r negodwyd a benodwyd, y Cynghorwyr A. R. James a Mrs D. King, cynghorodd Clerc y Dref fod pob parti yn barod i fwrw ymlaen i lofnodi'r Les a'r gwaith papur cysylltiedig, a gofynnodd i'r aelodau gymeradwyo fod y Maer a hi yn eu llofnodi ar ran y Cyngor Tref, er mwyn galluogi bwrw ymlaen gyda symud i Neuadd y Dref.

[Ymunodd y Cynghorydd Mrs E. M. Chard â'r cyfarfod am 18.26pm.]

***PENDERFYNWYD*** *fod yr aelodau'n awdurdodi'r Maer a Chlerc y Dref i lofnodi'r gwaith papur ar ran y Cyngor Tref.*

**140. DIWEDD Y CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod, cyhoeddodd y Maer ddiwedd y cyfarfod.

Cadeirydd: ……..…………………..

Dyddiad: ………………..………..